**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 7 Chwefror 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | W Evans | R Francis-Davies |
| D H Hopkins | A S Lewis | J A Raynor |
| M Thomas | | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Jeff Green | Rheolwr Diogelwch Ffyrdd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, C E Lloyd ac R C Stewart

---

## 32 Ethol Cadeirydd Dros Dro.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd J Raynor yn Gadeirydd Dros Dro.

**Y Cynghorydd J Raynor (Cadeirydd) fu'n llywyddu**

## 33 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd J Raynor fudd personol yng nghofnod rhif 35 "Cais am grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Llywodraeth Cymru 2017/18 - Cyllid Ychwanegol (Rhagfyr 2017)" - roedd gan y Cynghorydd geisiadau diogelwch ffyrdd yn ei ward.

## 34 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Panel Ariannu Allanol gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2018 yn gofnod cywir.

**35 Cais ar gyfer Grant Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau Llywodraeth Cymru 2017/18 - Cyllid Ychwanegol (Rhagfyr 2017).**

Ystyriodd y panel yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ychwanegol am y cais am grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Llywodraeth Cymru 2017/18.

Mae'r fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn gwella darpariaeth llwybrau cerdded a beicio mewn cymunedau, yn enwedig y tu allan i ysgolion ac o'u hamgylch. Nod hyn yw annog ffordd fwy cynaliadwy o fyw mewn cymunedau a mynd i'r afael â materion eithrio cymdeithasol.

**Penderfynwyd:**

1) Mae'r Panel Ariannu Allanol yn caniatáu i swyddogion dderbyn arian grant ychwanegol ar gyfer Llwybrau Diogel mewn Cymunedau;
2) Mae prosiectau'n cael eu datblygu a'u rhoi ar waith er mwyn creu amgylcheddau cerdded a beicio sy'n fwy diogel ar hyd Heol/Stryd Llangyfelach i Heol Cwm Lefel;
3) Mae prosiectau'n cael eu datblygu a'u rhoi ar waith er mwyn creu amgylcheddau cerdded a beicio sy'n fwy diogel yn ardal Gŵyr.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.02 pm

**Cadeirydd**